**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 22.09.2025
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Demle Phillips, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Bethan Griffith
**Ymddiheuriadau:** dim

**41.Datgelu Buddianau Personol:**
Dim.

**42. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 14.07.2025**

Cofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 14.07.25:Roedd angen cywiriad i eitem35-Ymgynghoriad cyn cynllunio-nodwyd, er iddo gael ei drafod, nad oedd y Cyngor wedi rhoi barn ffurfiol ar y mater, fodd bynnag roedd y Cyngor wedi penderfynu ymateb i Amity gan ddatgan bod y Cyngor yn cefnogi'r pryderon ysgrifenedig a godwyd gan drigolion lleol. Cytunodd y Cyngor ac unwaith y gwnaed y gwelliant a nodwyd I eitem m.35, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod ar14.07.25. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Delme Phillips.

**43.Materion i'w hadrodd**

a. Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
.

**44.Gohebiaeth.**

*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- Cynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru-Pris£95 nid oes aelod yn gallu mynycu ar 1/10/25. Penderfynwyd i roi gwybod i U.Ll.C. bod y Cyngor yn siomedig ni chafodd y cynnig a gynigiwyd gan Cynwyl Elfed ei gynnwys ar yr agenda.
- Invitation-Forwm-Dyfodol ein Cymunedau Gwledig Cymraeg-27.9.25 -nodir.
- Digwyddiad ar y Cyd Un Llais Cymru/SLCC 12/11/2025 - £65+ T.A.W.- Enid Davies i fynychu.
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd.-nodir.

**45.Cynllunio**

**PL/09750**- Amrwymiad o Amod 3 ar PL/03756 (Er mwyn ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cais materion a gedwir yn ôl tu hwnt i'r cyfnod gwreithiol o dair blynedd)
- Tir gyferbyn a Green Park, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6TN
**PL/09752** - Trosi ysgubor garreg yn atodiad i'r prif dŷ -Nantyrhyddod, Cwmduad, Caerfyrddin SA33 6XB
Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r ceisiadau cynllunio uchod.
**PL/09802**- Newid defnydd I faes ymarfer corff cŵn -
Tir gerllaw Blaenffos, Cynwyl Elfed , Caerfyrddin SA33 6SY
Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais cynllunio hwn.

**46.Taliadau a Chyllid**

**(a)**Taliadau a Chyllid

| | |
|---|---|
| • Maria Thomas Magic Mops - Gorffennaf | £230.00 taler |
| • Maria Thomas Magic Mops - Awst. | £195.50 taler |
| • ME Davies Cyflog clerc 07/25 | £309.90 |
| • ME Davies Cyflog clerc 08/25 | £310.10 |
| • W3 Web Designs Ltd | £169.00 |
| • EDF Trydan DU -01.07.25-31.07.25 | £ 41.88 |
| • EDF Trydan. Du -01.08.25-31.08.25 | £ 40.76 |
| • ME Davies (amazon Codwr Ysbwriel-cyfleusterau) | £ 15.50 |
| • ME Davies (Nisbets 2 Dosbarthwr papur + Papur toiledx 36) | £ 87.06 |
| • C.Ff.I. Bwrdd yn sioe Cynwyl Elfed | £. 20.00 |

- **Derbyniadau**

- Praesept - derbyniwyd yr ail daliad ar 29.08.25 - £7,359.20

- ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Y Cyng. Amy Evans i adolygu'r cyfrifon hyd at 31 Awst 2025.

## 47.Materion Priffyrdd:

## ***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 22.09.2025***

Cynigiwyd gan Cyng. E.D. bod y clerc yn rhoi diolch i'r Cyngor Sir am yr holl waith a gyflwynwyd hyd at nawr drwy ardal Cynwyl Elfed ac yn enwedig ar y B4333 drwy Cynwyl Elfed a Hermon lle mae arwyddion clir yn eu lle i ddangos bod y ffordd yn culhau.

a) twll yn y ffor tu allan i Villa, Blaenycoed.
b) Penlanchwilor - gwter wedi blocio SA33 6UD
c) Rhiw Clos y Graig - Cloddiau wedi gordyfu ac yn amharu ar y ffordd fawr gyda changhennau yn ymestyn allan i'r ffordd. Perygl. Nid yw'r Cyngor Gymuned yn gwybod pwy yw'r perchennog.
d) A484 - Coeden wedi cwympo ger Esgair penwythnos diwethaf, mae'r goeden wedi ei torri ond mae dal i fod coed sy'n beryg ac mae angen eu clirio.
e) C2023 o Cynwyl I Penrhiwcrynfryn - tua troedfedd o'r ffordd wedi erydu i ffwrdd
f) Cyffordd Penrhiwcrynfryn-ffordd fach-dim gwyneb ar ôl ar y ffordd.
g) Cyffordd Esgair - Cwlfer wedi cwympo eto. SA33 6UL
h) Man sefyll Esgair - Angen eu lanhau.
i) Mae angen terfyn cyflymder is drwy Esgair.

J) Y ffordd rhwng Esgair a Calcit - Ochr y ffordd wedi'i erydu gan adael ymyl miniog ac hefyd Mae cwymp serth ar ochr chwith o'r ffordd.

k) Esgair - Penfoel - Mae coniau wedi eu gosod ar ochr y ffordd lle mae'r ffordd wedi cwympo mewn i'r gwter- mae angen atgyweiriadau.

L)Ffordd I Cwm Hagar - mae gwyneb y ffordd wedi hollti yn y canol.

m) Greanu- clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir i greanu ffyrdd C - rhwng Penfforddnewydd i Tŷ Coch, sydd yn ffor brysur ac hefyd i wneud yn siwr bod y blychau grean yn yr ardal wedi'u llenwi cyn y tywydd rhewllyd.

n). Adroddwyd gan Cynghorwyr fod aelodau o'r cyhoedd wedi cysylltu â nhw ynghylch tipio deunydd/malurion yn bosib heb drwydded ar dir wrth ochr yr A484 yn SA33 6AR. Penderfynwyd dylai'r Cyngor ymchwilio i hyn.

## 48. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau—

- **Cae Chwarae Bro Elfed**
- - Dywedodd Cyng. Amy Evans wrth y cyfarfod bod y Carnifal wedi bod yn llwyddiant gan godi £300 tuag at y Parc.
- Mae yswiriant y Parc I'w dalu. Cytuniwyd bod y Cyngor yn talu hwn o dan Adran 137 taliadau grantiau bach - clerc I anfon ffurflen gais I bwyllgor y parc.
- Re: Canclwm Japan a'r ffens o amgylch y Parc - Cyng.Robin Bowen I fynd i weld..
- **Public Conveniences:** -
- Mae'r Cyng. Julian Evans wedi gosod y dosbarthwyr rholiau toiled newydd yn eu lle.

## 49.Unrhyw Fater Arall.

- *Hyfforddiant -*
- Mynychodd y Cynghorydd Aled Jones - gweminar Hyfforddiant Côd Ymddygiad U.Ll.C. ar 03.09.25 .
- Anogodd y Cynghorydd Amy Evans yr holl gynghorwyr I fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael.

**50. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**
Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **20 Hydref 2025** am**: 7:30** yr hwyr**.**

.
Daeth y cyfarfod i ben am 21.30 awr.

……………………………………………………………
Cadeirydd.
……………………………………………………………
Dyddiad.